Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Gwariant Cyllideb Cyfathrebu

15 Mehefin 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

1. *Gofynnaf am gael gweld manylion holl wariant Mark Drakeford AC o'i gyllideb cyfathrebu, gan gynnwys unrhyw gopïau o adroddiadau a anfonwyd allan neu ddeunydd a gyhoeddwyd ers iddo gael ei ethol yn 2011.*
2. *Gofynnaf hefyd am gael gweld unrhyw negeseuon e-bost rhwng Mr Drakeford neu ei staff a Chomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'r gyllideb cyfathrebu.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnoch amdani, ac mae wedi'i hatodi i'r llythyr hwn ar ffurf dwy ddogfen PDF a dwy ffeil gyfryngau. (Ar gael ar gais)

Mae rhai rhannau o'r wybodaeth wedi eu cuddio gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol ac wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a (3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad mewn perthynas â'r wybodaeth hon ar gael yn atodiad A i'r llythyr hwn.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sy'n sail i'r casgliad ynghylch y wybodaeth hon ar gael yn atodiad B i'r llythyr hwn.

Yn olaf, o 2013-14 hyd heddiw, cyhoeddir gwybodaeth sy'n ymwneud â gwariant cyllideb cyfathrebu Aelod o'r Senedd fel rhan o Adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Taliadau, sydd ar gael ar wefan Senedd Cymru:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10075&AIID=44624


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Gan fod rhywfaint o’r wybodaeth y gofynnwyd amdani eisoes wedi'i chyhoeddi ar wefan Senedd Cymru, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad A**

Mae peth o'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn Erthygl 4 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (“GDPR”), sef:

”any information relating to an identified or identifiable natural person (‘data subject’); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, psychological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person”.

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data cyntaf fel y nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR yn nodi:

“Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject (‘lawfulness, fairness and transparency’)”.

Wrth benderfynu a fyddai datgelu’r wybodaeth hon yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau'r datgeliad, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Ni fyddai gan yr unigolion ddisgwyliad rhesymol y byddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu, ac ni fyddai datgelu’r wybodaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at roi ymateb llawn i wraidd eich cais. O ran yr unigolion y mae datgelu eu data personol yn rhoi mwy o fudd, gan gynnwys Aelodau'r Senedd ac uwch staff y Comisiwn, nid yw’r wybodaeth hon wedi’i chuddio.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i ystyried Erthygl 6 o'r GDPR. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

”Processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the controller or by the third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.”

Mae’r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid y pynciau data.

Yn gyffredinol, mae tryloywder o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae budd y cyhoedd yn cael ei ddiwallu yn yr achos hwn, yn ein barn ni, drwy ddatgelu llawer o gynnwys y dogfennau sydd o fewn cwmpas y cais. Nid yw'r dadleuon o blaid datgelu'r wybodaeth na chafodd ei rhannu, yn ein barn ni, yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol neu ryddid gwrthrychau'r data.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n angenrheidiol datgelu'r wybodaeth dan sylw i fodloni budd y cyhoedd.

**Atodiad B**

Mae adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio rhag datgelu unrhyw wybodaeth a 'fyddai, neu a fyddai'n debygol, o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei ddal).'

Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'unrhyw berson' yw Comisiwn y Senedd (fel yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal y wybodaeth), yr Aelod dan sylw, Mark Drakeford AS, a'r cwmnïau a roddodd ddyfynbris a gwybodaeth brisio ar gyfer gwaith. Y bwriad y tu ôl i'r eithriad yw atal datgelu gwybodaeth a allai achosi niwed i fuddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu sefydliad, fel eu gallu i gymryd rhan gystadleuol mewn gweithgarwch masnachol.

Yn ein barn ni, nid yw datgelu'r wybodaeth yn rhagfarnu buddiannau masnachol yr Aelod a Chomisiwn y Senedd. Fodd bynnag, ar ôl ceisio barn y cwmnïau y mae eu gwybodaeth o fewn cwmpas eich cais, rydym yn fodlon y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed sylweddol i fuddiannau masnachol rhai o'r cwmnïau hynny.

Yn benodol, byddai rhyddhau manylion am brisio a gwybodaeth dyfynbrisiau sy'n ymwneud â gwaith argraffu a dosbarthu, nad yw eisoes ar gael yn gyhoeddus, yn golygu y byddai gwybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus, ac mae rhai o'r cwmniau o'r farn y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar eu sefyllfa yn y farchnad. Byddai'r manylion yn rhoi gwybodaeth i'w cystadleuwyr a allai eu rhoi o dan fantais annheg wrth gystadlu yn erbyn y cwmnïau hynny am gontractau tebyg. Dim ond mewn achosion lle mae cwmni wedi nodi y byddai datgelu gwybodaeth yn niweidio eu buddiannau masnachol yr ydym wedi cuddio gwybodaeth.

Mae adran 43(2) yn amodol ar ystyried 'prawf budd cyhoeddus'. Hynny yw, er mwyn atal y wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n rhaid ein bod yn fodlon bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn drech na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth.

Rydym yn ymwybodol o'r angen, lle bynnag y bo modd, i fod yn dryloyw o ran dyrannu arian cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu bod budd cyhoeddus mewn cynnal gallu cyflenwyr preifat i gontractio yn effeithiol. Byddai'n anffodus pe byddai parodrwydd gweithredwyr o'r fath i ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd yn cael ei lesteirio gan bryder y byddai Comisiwn y Senedd yn datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol ar chwarae bach.

I gloi, nid ydym o’r farn bod y budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth y gofynnir amdani yn bwysicach na’r niwed tebygol a allai ddilyn yn sgil rhyddhau’r wybodaeth honno.